

## AELHAEARN (7fed ganrif), nawdd-sant

**Enw:** Aelhaearn  
**Rhiant:** Hygarfael fab Cyndrwyn  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** nawdd-sant  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Yn ôl rhestrau'r saint yr oedd yn fab Hygarfael, mab Cyndrwyn o Lystyn Wennan (Moel Feliarth yn awr) ym mhlwyf Llangadfan, Sir Drefaldwyn. Iddo ef y priodolir sefydlu Cegidfa, Llanael-haearn, a chapel arall o'r un enw nad ydyw mewn bod yn awr ond a gynrychiolir gan Gwyddelwern. Cofir am ei enw, a geir yn aml ar y ffurf Elhaearn, yn Ffynnon Aelhaearn, ffynnon sanctaidd y credid gynt fod rhinwedd gwella yn ei dyfroedd; heddiw rhydd ddwr i bentref Llanaelhaearn. Tachwedd 1 yw dydd gwyl Aelhaearn. Ni wyddys ddim o'i hanes, eithr y mae'r cyflwyniadau eglwysig yn ein tueddu i greu'r farn ei fod yn un o ddisgyblion **Beuno**.

### Awdur

Syr **John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*, 109-12

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Aelhaearn

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18593818

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



#### Arddull APA

x

Lloyd, J. E., (1953). AELHAEARN (7fed ganrif), nawdd-sant. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-AELH-AEA-0600>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government